

## Ymgynghoriad ar y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru)

Tystiolaeth i'r [Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg](#) ar gyfer Craffu Cyfnod 1 Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru).

### Amdanoch Chi

Unigolyn

## 1. Egwyddorion cyffredinol y Bil

### 1.1 A ydych yn cefnogi egwyddorion y [Bil Cwricwlwm ac Asesu\(Cymru\)](#)?

Yn rhannol

### 1.2 Amlinellwch eich rhesymau dros eich ateb i gwestiwn 1.1

*(byddem yn ddiolchgar pe gallech gadw eich ateb o dan oddeutu 1,500 o eiriau)*

Mae'r egwyddorion braidd yn benagored ac yn medru cael eu dehongli mewn nifer o wahanol ffyrdd.

Yn ogystal á sgiliau, mae angen corff o wybodaeth ym mhob pwnc. Yn y pen draw, bydd cyflogwyr a sefydliadau addysg uwch eisiau bod yn sicr fod gan darpar fyfyrwr/.weithiwr y wybodaeth angenrheidiol yn ogystal á'r sgiliau sydd yn gysylltiedig á'r cwrs astudio/gwaith.

Mae angen ategu lle'r Gymraeg yn y cwricwlwm gyda gorfodaeth ar i bob ysgol ddysgu corff cyffredin o wybodaeth wedi ei ddysgu yn gronolegol, am Hanes Cymru ym Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau. Yn ogystal, mae angen i bob plentyn yng Nghymru wybod am elfennau unigryw ein diwylliant megis Cerdd Dant. Mae'r elfennau hyn yn bwysicach yn yr ysgolion cyfrwng Saesneg lle nad yw'r Gymraeg yn cael yr un sylw ag yn ysgolion cyfrwng Cymraeg.

Ni all Llywodraeth CYmru ddadlau ei fod yn erbyn yr egwyddor o orfodaeth, gan ei fod yn gorfodi y pedwar Diben, yr Hyn sydd yn Bwysig, Crefydd, gwerthoedda moeseg ac Addysg cyd berthynas a moeseg ar ysgolion.

### **1.3 A ydych yn credu bod angen deddfwriaeth i gyflawni'r hyn y mae'r Bil hwn yn ceisio'i gyflawni?**

*(byddem yn ddiolchgar pe gallech gadw eich ateb o dan oddeutu 500 o eiriau)*

-

## **2. Gweithredu'r Bil**

### **2.1 A oes gennych unrhyw sylwadau am unrhyw rwystrau posibl rhag gweithredu'r Bil? Os na, ewch i gwestiwn 3.1**

*(byddem yn ddiolchgar pe gallech gadw eich ateb o dan oddeutu 500 o eiriau)*

Oherwydd y pwyslais naturiol ar ymateb i'r pandemig, mae'n hanfodol nad yw'r mesur yn cael ei ruthro drwy'r Senedd heb graffu digonol.

### **2.2 A ydych yn credu bod y Bil yn ystyried y rhwystrau posibl hyn?**

*(byddem yn ddiolchgar pe gallech gadw eich ateb o dan oddeutu 500 o eiriau)*

-

## **3. Canlyniadau anfwriadol**

### **3.1 A ydych yn credu bod unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn deillio o'r Bil? Os na, ewch i gwestiwn 4.1**

*(byddem yn ddiolchgar pe gallech gadw eich ateb o dan oddeutu 500 o eiriau)*

Dehongliadau amrywiol o ofynion penagored.

Sylwer bod Llywodraeth yr Alban eisoes yn cynnal ymchwiliad i'r Cwricwlwm a luniwyd gan yr Athro Donaldson.

## 4. Goblygiadau ariannol

**4.1 A oes gennych farn am oblygiadau ariannol y Bil (fel y'u nodir yn Rhan 2 o'r [Memorandwm Esboniadol](#))? Os nad oes, ewch i gwestiwn 5.1**

*(byddem yn ddiolchgar pe gallech gadw eich ateb o dan oddeutu 500 o eiriau)*

-

## 5. Pwerau I wneud is-ddeddfwriaeth

**5.1 A oes gennych unrhyw sylwadau am addasrwydd y pwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth (fel y'i nodir ym Mhennod 5 o Ran 1 o'r [Memorandwm Esboniadol](#))? Os nad oes, ewch i gwestiwn 6.1.**

*(byddem yn ddiolchgar pe gallech gadw eich ateb o dan oddeutu 500 o eiriau.)*

-

## 6. Ystyriaethau eraill

**6.1 A oes gennych unrhyw bwyntiau eraill yr hoffech eu gwneud am y Bil hwn?**

*(byddem yn ddiolchgar pe gallech gadw eich ateb o dan oddeutu 1,000 o eiriau)*

Pwysigrwydd hybu'r Gymraeg gan gynnwys agweddau allgyrsiol Cymraeg yn yr ysgolion cyfrwng Saesneg.

Mae'n bwysig cyfannu'r bwlch rhwng y Cymry Cymraeg a'r rhai nad ydynt yn derbyn addysg Gymraeg

